# Cynnal gwasanaethau cwyro

## Trosolwg

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chael gwared â blew gan ddefnyddio technegau cwyro. Ymhlith yr ardaloedd a fydd yn cael eu trin y mae aeliau, wyneb, coesau, ceseiliau a llinell bicini. Bydd angen i chi allu ymgynghori â'r cleient, paratoi a chynllunio ar gyfer y gwasanaeth. Bydd angen i chi hefyd gynnig cyngor ôl-ofal i'r cleient, yn enwedig yn ymwneud ag osgoi gweithgareddau penodol a defnyddio cynnyrch gofal yn y cartref.

Er mwyn cyflawni'r safon hon bydd angen i chi gynnal iechyd, diogelwch a hylendid trwy gydol eich gwaith. Bydd angen i chi hefyd gynnal eich ymddangosiad personol a dangos sgiliau cyfathrebu ac ymgynghori effeithiol.

Prif ganlyniadau'r safon hon yw:

1. cynnal dulliau gwaith diogel ac effeithiol wrth gael gwared â blew wrth gwyro

2. ymgynghori, cynllunio a pharatoi ar gyfer gwasanaethau cwyro

3. cael gwared â blew diangen

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

**Cynnal dulliau gwaith diogel ac effeithiol wrth gael gwared â blew trwy gwyro****

1. cynnal eich cyfrifoldebau dros iechyd a diogelwch trwy gydol y gwasanaeth

2. paratoi'ch cleient a'ch hun i fodloni gofynion cyfreithiol a sefydliadol

3. amddiffyn dillad, gwallt ac ategolion eich cleient trwy gydol y gwasanaeth

4. cynnal urddas a phreifatrwydd eich cleient bob amser

5. gosod eich cleient mewn safle i fodloni anghenion y gwasanaeth

6. sicrhau bod eich ystum a'ch dulliau gwaith eich hun yn isafu ar flinder a risg o anaf i'ch hun ac eraill

7. sicrhau bod amodau amgylcheddol yn addas i'r cleient a'r gwasanaeth

8. cadw'ch ardal waith yn lân ac yn daclus trwy gydol y gwasanaeth

9. defnyddio dulliau gwaith sy'n isafu ar risg o groes-heintio

10. sicrhau defnydd ar gyfarpar a deunydd glân

11. hyrwyddo arferion gwaith amgylcheddol a chynaliadwy

12. dilyn cyfarwyddiadau'r gweithle a chyflenwyr neu gynhyrchwyr ar ddefnydd diogel o gyfarpar, deunydd a chynnyrch

13. cael gwared ar ddeunydd gwastraff i fodloni gofynion cyfreithiol

14. cwblhau'r gwasanaeth o fewn amser sy'n ymarferol yn fasnachol

**Ymgynghori, cynllunio a pharatoi ar gyfer gwasanaethau cwyro****

15. defnyddio **technegau ymgynghori** i bennu cynllun gwasanaeth y cleient

16. sicrhau caniatâd gwybodus, wedi'i lofnodi gan riant neu warcheidwad cyn trin plentyn cyn unrhyw wasanaeth

17. sicrhau bod rhiant neu warcheidwad yn bresennol trwy gydol y gwasanaeth ar gyfer plant sy'n iau na 16 oed

18. adnabod unrhyw wrtharwyddion a chymryd y **camau angenrheidiol**

19. cytuno ar y gwasanaeth a'r canlyniadau sy'n bodloni anghenion y cleient

20. sicrhau caniatâd gwybodus ysgrifenedig, wedi'i lofnodi gan y cleient cyn cynnal y **gwasanaeth cwyro**

**Cael gwared â blew diangen****

21. taenu cynnyrch cyn cwyro i'r ardal i'w thrin

22. cynnal clwt prawf thermol yn union cyn y **gwasanaeth cwyro**

23. sefydlu patrwm twf y blew a thocio blew hir cyn taenu'r **cwyr**

24. taenu **cwyr**, gan isafu ar risg o groes-heintio a heintio

25. taenu a thynnu'r **cwyr** yn ôl gofynion y dull cael gwared â blew a phatrymau twf y blew

26. sicrhau bod eich **technegau gwaith** yn isafu ar anghysur i'r cleient

27. gwirio lles eich cleient trwy gydol y **gwasanaeth cwyro**

28. sicrhau bod yr ardal sy'n cael ei thrin yn cael ei gadael yn rhydd rhag **cwyr** a blew ac yn cael ei thrin gyda chynnyrch ar ôl cwyro

29. sicrhau bod y cleient yn fodlon â'r canlyniad gorffenedig

30. rhoi **cyngor ac argymhellion** i'ch cleient ar y gwasanaethau a ddarparwyd

31. sicrhau bod cofnodion y cleient yn cael eu llanw a'u llofnodi gennych chi a'r cleient

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

**Cynnal dulliau gwaith diogel ac effeithiol wrth gael gwared ar flew trwy gwyro****

1. eich cyfrifoldebau dros **iechyd a diogelwch** fel y diffinnir gan unrhyw ddeddfwriaeth benodol sy'n berthnasol i'ch swydd

2. y gofynion cyfreithiol a sefydliadol ar gyfer amddiffyn a pharatoi cleient

3. y gofynion cyfreithiol a sefydliadol ar gyfer eich hylendid, amddiffyniad ac ymddangosiad personol eich hun

4. y rhesymau dros gynnal urddas a phreifatrwydd y cleient bob amser

5. technegau gosod eich hun a'r cleient mewn safle diogel i atal anghysur

6. amodau amgylcheddol angenrheidiol ar gyfer gwasanaethau megis, gwresogi ac awyru, a pham mae'r rhain yn bwysig

7. pam mae hi'n bwysig cadw'ch ardal waith yn lân ac yn daclus

8. dulliau glanhau, diheintio a sterileiddio

9. dulliau gweithio'n ddiogel ac yn lân er mwy osgoi'r risg o groes-heintio

10. gwahanol fathau o ddulliau gwaith sy'n hyrwyddo **arferion gwaith amgylcheddol a chynaliadwy**

11. y peryglon a'r risgiau sy'n bodoli yn eich gweithle a'r arferion gwaith diogel y mae'n rhaid i chi eu dilyn

12. cyfarwyddiadau cyflenwyr a chynhyrchwyr ar ddefnydd diogel ar gyfarpar, deunydd a chynnyrch y mae'n rhaid i chi eu dilyn

13. gofynion cyfreithiol ar gyfer cael gwared ar wastraff

14. y rhesymau dros gwblhau'r gwasanaeth o fewn amser sy'n ymarferol yn fasnachol

**Ymgynghori, cynllunio a pharatoi ar gyfer gwasanaethau cwyro****

15. pam mae'n bwysig cyfathrebu gyda chleientiaid mewn modd proffesiynol

16. sut i gynnal ymgynghoriad gan ystyried **anghenion amrywiol** y cleient

17. y gofynion cyfreithiol dros ddarparu gwasanaethau i blant sy'n iau na 16 oed

18. yr oed pan fydd unigolyn yn cael ei ystyried yn blentyn a sut mae hyn yn amrywio'n genedlaethol

19. pwysigrwydd cytuno i wasanaeth sy'n bodloni anghenion y cleient

20. pwysigrwydd cyfreithiol sicrhau caniatâd gwybodus, wedi'i lofnodi gan y cleient i gynnal y gwasanaeth

21. gofynion deddfwriaethol ar gyfer storio a diogelu data cleient

22. y gwrtharwyddion sy'n gofyn am atgyfeiriad meddygol a pham

23. sut i adnabod **gwrtharwyddion** a fyddai'n atal neu'n cyfyngu ar y gwasanaeth

24. y camau angenrheidiol i'w cymryd mewn perthynas â gwrtharwyddion penodol wrth gyfeirio cleientiaid

25. y rhesymau dros beidio ag enwi gwrtharwyddion penodol wrth gyfeirio cleientiaid

26. y rhesymau pam mae'n ddoeth cynnal prawf sensitifrwydd croen cyn y gwasanaethau cwyro

**Cael gwared â blew diangen****

27. y rhesymau dros gynnal gweithdrefn clwt prawf thermol ac i docio blew hir cyn y gwasanaeth cwyro

28. sut i asesu cyflwr y croen a thwf y blew yn yr ardal i'w thrin

29. mathau o gyfarpar a chynnyrch a ddefnyddir ar gyfer cwyro

30. swyddogaeth a diben cynnyrch cyn cwyro ac ôl-gwyro

31. cynhwysion a chyfansoddiad gwahanol gynnyrch cwyro
32. yr amryw dechnegau sy'n gysylltiedig â'r tymereddau gwaith ar gyfer gwahanol gynnyrch cwyro
33. sut i baru gwahanol gynnyrch cwyro i wahanol fathau o flew
34. gofynion taenu a thynnu cynnyrch mewn perthynas â chyfeiriad twf y blew
35. y rhagofalon y mae'n rhaid eu cymryd wrth gael gwared â blew o amgylch amodau sy'n cyfyngu ar y driniaeth
36. manteision, anfanteision a chyfyngiadau triniaethau cwyro
37. **dulliau eraill o gael gwared â blew** ac effaith y dulliau hyn ar y broses gwyro
38. sut i ddefnyddio gwahanol dechnegau gwaith i sicrhau cysur y cleient
39. adwaith disgwyliedig y croen i gwyro
40. yr **adweithiau** a allai ddigwydd, sut i ddelio â hwy a pha gyngor i'w roi i gleientiaid
41. **adeiladwaith a swyddogaethau'r croen** a'r blew
42. y **cylchred twf blew**, y **gwahanol fathau o dwf blew** ac **achosion twf blew**
43. y **gweithgareddau i'w hosgoi ar ôl cywro** a pam mae'r rhain yn bwysig
44. y **cyngor ac argymhellion** ar gynnyrch a gwasanaethau

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

**Technegau ymgynghori****

1. holi
2. edrych
3. teimlo
4. ysgrifenedig

**Camau angenrheidiol****

1. annog y cleient i geisio cyngor meddygol
2. esbonio pam nad oedd modd cynnal y gwasanaeth cwyro
3. addasu'r gwasanaeth cwyro

**Gwasanaeth cwyro****

1. aeliau
2. gwefus uchaf
3. gên
4. coes lawn
5. hanner goes
6. ceseiliau
7. llinell bicini

**Cwyr****

1. cwyr poeth

2. cwyr cynnes

**Technegau gwaith****

1. ymestyn a thrin y croen yn ystod y taenu a'r tynnu

2. cyflymder tynnu'r cynnyrch

3. cyfeiriad ac ongl y tynnu

4. gwiriadau parhaus ar dymheredd y cynnyrch

**Cyngor ac argymhellion****

1. cynnyrch gofal yn y cartref addas a'u defnydd

2. osgoi gweithgareddau a allai achosi adweithiau

3. cyfnodau o amser rhwng gwasanaethau

4. cynnyrch a gwasanaethau yn awr ac yn y dyfodol

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â  gwybodaeth a dealltwriaeth

**Iechyd a diogelwch****

1. Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith
2. Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR)
3. Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf)
4. Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân)
5. Rheoliadau Gweithredoedd Codi a Chario
6. Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH)
7. Rheoliadau Trydan yn y Gweithle
8. Deddf Diogelu'r Amgylchedd
9. Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith
10. Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Gwybodaeth i Gyflogeion)

**Arferion gwaith amgylcheddol a chynaliadwy****

1. gostwng gwastraff a rheoli gwastraff (ailgylchu, ailddefnyddio, gwaredu diogel)
2. gostwng defnydd ar ynni (cyfarpar sy'n arbed ynni, goleuadau ynni isel, defnyddio paneli solar)
3. gostwng defnydd ar ddŵr ac adnoddau eraill
4. atal llygredd
5. defnyddio eitemau untro
6. defnyddio dodrefn wedi'u hailgylchu, ecogyfeillgar
7. defnyddio paent â chemegau isel

8. defnyddio pecynnau cynnyrch ecogyfeillgar

9. dewis cynnyrch domestig cyfrifol

10. annog siwrneion i'r gwaith sy'n gostwng carbon

**Anghenion amrywiol****

1. diwylliannol

2. crefyddol

3. oed

4. anabledd

5. rhyw

**Gwrtharwyddion** sy'n cyfyngu

1. meddyginiaeth sy'n effeithio ar y croen, gwaed neu system imiwnedd

2. brech gwres

3. llosg haul

4. clefyd siwgr

5. mannau geni

6. blew sy'n tyfu i'r byw wedi'u heintio

7. tagiau croen

8. meinwe craith ddiweddar

**Gwrtharwyddion** sy'n atal

1. croen tenau a bregus

2. alergeddau hysbys i gynnyrch a chynhwysion megis resin

sydd mewn plastrau a chwyr

3. cyflyrau croen difrifol a heintus

4. gwythiennau chwyddedig difrifol

**Dulliau cael gwared â blew****

1. plicio

2. eillio

3. hufenau tynnu blew

4. tynnu blew yn drydanol

5. menig garw

6. lleihau blew gyda golau

7. edafeddu

8. diflewio yn drydanol

**Adweithiau****

1. cleisio

2. smotiau gwaed

3. crafiadau

4. blew wedi torri

5. adwaith histamin

6. cochni gormodol

7. aildyfiant gormodol ac aildyfiant llai

8. llosgiadau

9. enyniad

**Adeiladwaith a swyddogaethau'r croen****

Adeiladwaith:

1. haenau'r uwchgroen
2. y croen
3. haen tan y croen
4. ffoligl blewyn
5. siafft blewyn
6. chwarren sebwm
7. cyhyr arrector pili
8. chwarren chwys
9. llestri gwaed a phibellau lymff
10. terfynau nerfau synhwyraidd

Swyddogaethau:

1. sensitifrwydd
2. rheoli gwres
3. amsugnad
4. amddiffyn
5. ysgarthu
6. secretiad
7. cynhyrchu fitamin D

**Cylchred twf blew****

1. anagen

2. catagen

3. telogen

Gwahanol fathau o dwf blew

1.terfynol

2. vellus

3. blew yn tyfu i'r byw

**Achosion twf blew****

1. lleol

2. genedigol

3. systemig

**Gweithgareddau i'w hosgoi ar ôl cwyro****

1. gwres megis sawna, haul a bath poeth

2. defnyddio cynnyrch â phersawr neu gemegau

3. gwisgo dillad sy'n cyfyngu

4. cyffwrdd â'r ardal sydd wedi'i thrin

5. nofio ac ymarferion eraill

**Cyngor ac argymhellion****

1. gwasanaethau ychwanegol

2. cynnyrch ychwanegol

3. gofynion ôl-ofal ar gyfer cwyro a pham mae'r rhain yn bwysig

4. argymell i'r cleient ddychwelyd i gael gwasanaethau cwyro bob 6-8 wythnos

## Gwerthoedd

Mae'r gwerthoedd allweddol a ganlyn yn sail i gyflwyno gwasanaethau yn y sectorau harddwch, ewinedd a sba

1. parodrwydd i ddysgu
2. agwedd gweithio hyblyg
3. gweithiwr tîm
4. agwedd bositif
5. moeseg bersonol a phroffesiynol

## Ymddygiadau

Mae'r ymddygiad a ganlyn yn sail i gyflwyno gwasanaethau yn y sectorau harddwch, ewinedd a sba. Mae'r ymddygiad hwn yn sicrhau bod cleientiaid yn cael argraff gadarnhaol o'r sefydliad a'r unigolyn

1. bodloni safonau ymddygiad y sefydliad
2. cyfarch y cleient yn barchus ac mewn modd cyfeillgar
3. cyfathrebu gyda'r cleient mewn ffordd sy'n gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu
4. trin y cleient yn gwrtais ac yn wasanaethgar bob amser
5. addasu'r ymddygiad i ymateb yn effeithiol i wahanol ymddygiad gan y cleient
6. gwirio gyda'r cleient eich bod chi wedi deall eu disgwyliadau yn llawn
7. ymateb yn brydlon ac yn gadarnhaol i gwestiynau a sylwadau'r cleient
8. adnabod gwybodaeth y gallai'r cleient ei chael yn gymhleth a gwirio a ydynt wedi deall yn llawn
9. bodloni safonau ymddangosiad y sefydliad a'r diwydiant.

## Sgiliau

Mae'r sgiliau allweddol a ganlyn yn sail i gyflwyno gwasanaethau yn y sectorau harddwch, ewinedd a sba

1. y gallu i hunan-reoli
2. cyfathrebu llafar a dieiriau gwych
3. defnyddio'r ffyrdd mwyaf priodol o gyfathrebu gyda chleient
4. ymateb yn brydlon i gleient sy'n gofyn am gymorth
5. canfod gwybodaeth yn gyflym a fydd o gymorth i'r cleient
6. rhoi gwybodaeth y mae ei hangen ar gleient am wasanaethau a chynnyrch a gynigir gan y sefydliad

## Geirfa

**Llinell Bicini - cwyro cyffredinol****

Mae hyn yn cynnwys cael gwared ar flew sydd y tu hwnt i friff top y goes, o amgylch ac o dan ran uchaf, fewnol y glun.

**Gofynion cyfreithiol****

Mae hyn yn cyfeirio at gyfreithiau sy'n effeithio ar y ffordd y mae busnesau yn cael eu gweithredu, sut y mae'r salon neu'r gweithle wedi'i osod a'i gynnal, pobl sy'n cael eu cyflogi a'r systemau gwaith y mae'n rhaid eu cynnal. Yr hyn sy'n arbennig o bwysig yw rheoliadau COSHH, Rheoliadau Trydan yn y Gweithle a'r Rheoliadau Cynnyrch Cosmetig.

**Clwt prawf thermol****

Darn o gwyr yn cael ei roi ar ardal fach o groen y cleient yn yr ardal sy'n cael ei thrin, yn union cyn y gwasanaeth cwyro. Mae hyn er mwyn gwirio a yw'r cwyr ar dymheredd cyfforddus i'r cleient cyn parhau â'r gwasanaeth.

SKABT7

Cynnal gwasanaethau cwyro

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | SkillsActive |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Ion 2015 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 29 Meh 2020 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | SkillsActive |
| **RCU gwreiddiol** | SKAB6 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Therapydd Harddwch |
| **Cyfres/Set** | Therapi Harddwch |
| **Geiriau Allweddol** | cwyro poeth; cwyro cynnes; cwyro |